Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Diogelwch Morol yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy

## Canllaw mordwyo diogel



Ni yw Cyfoeth Naturiol Cymru, sef prif gynghorydd a phartner cyflawni Llywodraeth Cymru o ran yr amgylchedd. Ein diben yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella’n gynaliadwy a’u defnyddio’n gynaliadwy, mewn ffordd sy’n dda i bobl, yn dda i’r amgylchedd ac yn dda i’r economi, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae CNC yn ymrwymedig i hyrwyddo dulliau da o reoli’r adnoddau sydd ar gael iddo er mwyn gwneud y canlynol:

Cynnal a rheoleiddio gweithrediadau morol mewn ffordd sy'n diogelu Gwarchodaeth Dyfrdwy, ei defnyddwyr, y cyhoedd a'r amgylchedd i gyflawni'r safon diogelwch morol sy'n ofynnol gan y Cod Diogelwch Morol ar gyfer Porthladdoedd.

Hyrwyddo'r defnydd o Warchodaeth Dyfrdwy a sicrhau bod ei datblygiad economaidd yn ystyried, ac yn cydbwyso, barn ac anghenion yr holl randdeiliaid yn erbyn defnyddio adnoddau naturiol a gwarchod yr amgylchedd.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru

Ffôn: 0300 065 3000

E-bost: ymholiadau@ cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru
Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu’r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Rhagair gan ein Prif Weithredwr

## Cyflwyniad i Aber Afon Dyfrdwy



Gall aber afon Dyfrdwy fod yn lle peryglus, gyda thywod symudol a cheryntau llanw cryf. Mae wedi bod yn llwybr pwysig i longau masnachu ers dros ddwy fil o flynyddoedd ac mae'n parhau i fod yn ardal bwysig. Mae angen i'r rhai sy'n mordwyo yno fod yn ymwybodol o'r peryglon a bod yn barod i ddelio â nhw'n ddiogel.

---

Ers 1889, mae Gwarchodaeth Dyfrdwy wedi rheoleiddio mordwyo yn yr aber ac wedi darparu cymhorthion i helpu llestrau i deithio drwodd yn ddiogel. Mae'r ddyletswydd hon bellach yn gyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru ac rydym yn parhau i gymryd iechyd a diogelwch o ddifrif.

Yn sgil masnach fodern, mae llongau mwy o faint yn dod i'r aber, sydd unwaith eto'n chwarae rhan bwysig yn economi'r ardal. Mae pysgota masnachol, hwylio hamdden a chwaraeon dŵr hefyd yn digwydd ledled yr aber.

Er mwyn hybu diogelwch morol, rydym wedi cynhyrchu'r wybodaeth hon i helpu holl ddefnyddwyr yr aber i ddeall y peryglon, gwybod beth i gadw llygad amdano, beth i'w osgoi a sut i ymateb mewn argyfwng. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi a ph'un a ydych ar y dŵr i wneud bywoliaeth neu i'w fwynhau yn unig, y byddwch yn parhau i ddefnyddio'r aber yn ddiogel.

**Clare Pillman**
Prif Weithredwr

# Cynnwys

Gwarchodaeth Dyfrdwy…………………………….……………......Tudalen 5

Datganiad polisi…………………………….............................Tudalen 6

Ystyriaethau diogelwch cyffredinol ar gyfer
defnyddwyr Gwarchodaethfa Dyfrdwy………………….Tudalen 7

Diogelwch mordwyol yng
Ngwarchodaeth Dyfrdwy…………………………..…....Tudalen 12

Y weithdrefn adrodd mewn argyfwng ……………………..……Tudalen 27

Gwybodaeth gyswllt…………………………….....................Tudalen 31

# Gwarchodaeth Dyfrdwy

**Gwarchodaeth Dyfrdwy yw'r enw ffurfiol a roddir ar ardal ddiffiniedig y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awdurdod gwarchod, harbwr a goleudy lleol ar ei chyfer. Mae'r ardal hon yn cynnwys afon Dyfrdwy a'i haber, sy’n ymestyn o Wilcox Point i lawr yr afon o'r gored yng Nghaer, tua'r môr at linell ddychmygol sy'n cysylltu'r Parlwr Du ar arfordir Cymru â Hilbre Point ar benrhyn Wirral.**

Defnyddir Gwarchodaeth Dyfrdwy ar gyfer gweithgareddau masnachol a hamdden gan gynnwys mordwyo, pysgota, hwylio, cychod pŵer, sgïo dŵr, hwylfyrddio, gwylio adar, hela adar a cherdded.

Mae natur symudol y banciau tywod yn yr aber, ffrydiau llanw cryf a thywydd newidiol, i gyd yn beryglon a all peri lefel uchel o risg i ddiogelwch y bobl sy’n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Mae lefel y risg yn arbennig o uchel i bobl ddibrofiad a’r rheini nad ydynt yn gwybod am amodau lleol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru fel awdurdod cadwraeth, harbwr a goleudy lleol wedi paratoi’r wybodaeth hon, yn dilyn asesiad ffurfiol o risg, i dynnu sylw at y peryglon a nodwyd ac i hybu ac annog diogelwch ymhlith pawb sy’n defnyddio Gwarchodaeth Dyfrdwy yn unol â’r safonau a nodir yn y Cod Diogelwch Morol ar gyfer Porthladdoedd.

# Datganiad polisi

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu, dogfennu a gweithredu System Rheoli Diogelwch ar gyfer Gwarchodaeth Dyfrdwy.

Fel awdurdod cadwraeth, harbwr a goleudy lleol Gwarchodaeth Dyfrdwy, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo dulliau da o reoli’r adnoddau sydd ar gael iddo er mwyn gwneud y canlynol:

- Cynnal a rheoleiddio gweithrediadau morol mewn ffordd sy'n diogelu Gwarchodaeth Dyfrdwy, ei defnyddwyr, y cyhoedd a'r amgylchedd er mwyn cyflawni'r safon diogelwch morol sy'n ofynnol gan y Cod Diogelwch Morol ar gyfer Porthladdoedd.
- Hyrwyddo'r defnydd o Warchodaeth Dyfrdwy a sicrhau bod ei datblygiad economaidd yn ystyried ac yn cydbwyso barn ac anghenion yr holl randdeiliaid yn erbyn defnyddio adnoddau naturiol a gwarchod yr amgylchedd.



*Ffigur 1 Sianeli’r aber rhwng banciau tywod helaeth*

# Ystyriaethau diogelwch cyffredinol ar gyfer defnyddwyr Gwarchodaeth Dyfrdwy

Mae gan beryglon naturiol y potensial i achosi niwed neu anaf i bobl dibrofiad ac anwyliadwrus sy'n defnyddio Gwarchodaeth Dyfrdwy. Mae ffrydiau llanw cryf, newidiadau cyson yn y sianel fordwyadwy, banciau tywod cyfagos sy'n sychu a thywydd newidiol yn sylweddol.

Gan mwyaf, mae gweithgareddau hamdden fel cerdded yn digwydd yn ystod y cyfnod distyll pan fo llawer o'r banciau tywod yn agored ac yn ymddangos yn ddeniadol, yn enwedig yng ngolau'r haul. Fodd bynnag, mewn rhai rhannau o'r aber mae ardaloedd o dywod meddal a llaid lle mae'n beryglus cerdded, ac yn beryglus i'r rheini y mae'n bosibl y gofynnir iddynt roi cymorth mewn argyfwng.

Mae'r term gorllanwau yn cyfeirio at y llanwau sy'n cyd-daro â'r lleuad newydd a'r lleuad lawn bob mis, pan ellir disgwyl y codiad uchaf a'r cwymp isaf yn y llanw. Yn aber afon Dyfrdwy, mae mewnlif y llanw yn mynd i mewn i'r rhigolau a'r sianeli bas yn gyntaf, gan godi'n gyflym yn ystod gorllanwau mawr ac ynysu ardaloedd helaeth o fanciau tywod uwch.

Mewn amodau o'r fath, gall pobl anwyliadwrus gael eu hynysu'n gyflym o'r lan a mannau diogel. Am y rheswm hwn, dylai pobl sy'n bwriadu cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o'r fath ymgyfarwyddo'n gyntaf ag amseroedd llanwau a'r cyfnodau pryd y gallant gael mynediad diogel i rannau priodol o'r aber, megis yr ardal rhwng West Kirby ac Ynysoedd Hilbre.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod gennych yr offer priodol a bod gennych ddulliau dibynadwy o gyfathrebu. Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr aber a llanwau ar hysbysfyrddau'r awdurdod lleol sydd wedi'u lleoli cyfagos i bwyntiau mynediad cyhoeddus fel West Kirby, neu drwy gysylltu â'r cyngor perthnasol, (gweler y rhif a restrir yn yr adran Gwybodaeth cyswllt ar dudalen 31).

Gellir cael gwybodaeth hefyd oddi wrth Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy neu'r awdurdod peilota, yn ystod oriau swyddfa (gweler y rhifau a restrir yn yr adran Gwybodaeth cyswllt ar dudalen 31).

## Cyngor cyffredinol i lestrau

Oherwydd y newidiadau sy'n digwydd yn aml yn y sianel fordwyadwy a'r banciau tywod cyfagos, mae'r bwiau mordwyo sy'n nodi'r sianel ar y penllanw yn cael eu symud yn ôl yr angen. Ni ddylai unrhyw un nad oes ganddo wybodaeth leol ac sy'n gyfrifol am lestr fynd i mewn i'r aber heb geisio cyngor gan yr awdurdod peilota (Porthladd Mostyn) yn gyntaf. Ystyrir ei bod yn beryglus i lestrau dirio mewn mannau penodol yn y sianel fordwyadwy pan fo'r llanw'n mynd allan (trai), oherwydd y gallai'r tywod gael ei olchi i ffwrdd gan adael y llestr yn agored i gwympo drosodd.

Er y gall dyfroedd aber afon Dyfrdwy fod yn gymharol gysgodol, gall gwyntoedd cryfion sy’n chwythu yn erbyn ffrwd y llanw arwain at amodau môr, yn gyflym, sy’n achosi perygl i gychod bach. Dylai'r unigolyn sy’n gyfrifol am unrhyw lestr sy'n bwriadu defnyddio Gwarchodaeth Dyfrdwy fod yn gymwys i wneud hynny a sicrhau bod ganddo’r wybodaeth ddiweddaraf am y tywydd presennol a rhagolygon tywydd. Dylai hefyd sicrhau bod gan y llong y staff a'r cyfarpar priodol yn unol â'r Rheoliadau neu'r cod ymarfer priodol, lle bo'n berthnasol. Mae gwybodaeth a chanllawiau ar y materion hyn ar gael gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau **(gweler tudalen 31 – Gwybodaeth gyswllt)**. Gellir cael cyngor hefyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel awdurdod cadwraeth a harbwr.

## Y bysgodfa gocos

Dylai unrhyw un sydd â’r drwydded briodol ac sydd wedi’i awdurdodi i gynaeafu pysgod cregyn yn aber afon Dyfrdwy fod yn ymwybodol iawn o’r risg a berir gan gyflymder mewnlif y llanw, y tywydd newidiol ac amodau’r môr, cyn ymgymryd â’r gweithgaredd hwnnw. Dylai unrhyw un sy’n gyfrifol am unrhyw lestr a ddefnyddir i gludo pysgod cregyn a/neu unrhyw un sy’n ymwneud â chynaeafu, sicrhau bod y llestr yn gwbl addas i’r diben a fwriadwyd ac, o leiaf, fod ganddo’r canlynol:

- Un siaced achub fesul unigolyn (neu ddillad sy’n arnofio / hynawf os ydynt yn cael eu gwisgo bob amser).
- Un angor masnachol o'r math a'r pwysau priodol, gyda 2 fetr o gadwyn 6mm ynghyd ag ystof briodol 15 metr o hyd y mae un pen ohoni wedi'i chysylltu â man cryf yn y llestr.
- Dau fflachiad parasiwt coch a dau arwydd mwg.
- Un tun corn niwl nwy neu ddull arall o wneud signalau sain priodol.
- Dysgl ddisbyddu neu gynhwysydd y gellid ei ddefnyddio at y diben hwnnw, (gall hyn gynnwys y fflachiadau, y signalau mwg a’r corn niwl).
- Tortsh gwrth-ddŵr a batris.

Amlinellir y gofynion hyn yn y ddogfen Cynaeafu pysgod cregyn yn Aber Afon Dyfrdwy gan Cyfoeth Naturiol Cymru a ddosbarthir gyda thrwyddedau cocos. Mae’r cyfarwyddyd diogelwch ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Ystyriaethau ynglŷn â llanwau

Mae gwely'r afon yn codi o geg yr aber tua Chaer. Mae hyn yn golygu bod cynnydd y llanw a geir yn yr aber allanol yn llawer mwy na’r hyn a brofir yn y rhan o afon Dyfrdwy sydd wedi’i chamlesu.

Yn ystod gorllanw, gellir disgwyl codiad o tua 8.0 metr (26.2 troedfedd) yn lefel y dŵr ger ceg yr aber. Byddai hyn yn cyfateb i gynnydd yn y llanw o tua 3.0 metr (9.8 troedfedd) i fyny'r afon yng Nghaer.



*Ffigur 2 Yr eger yn y rhan o'r afon sydd wedi'i chamlesu tua chyfeiriad Queensferry ar ddechrau mewnlif y gorllanw*

Felly, mae trefn y llanw yn y rhan o’r afon sydd wedi’i chamlesu yn wahanol iawn i'r aber allanol, lle mae mewnlif y yn para tua 5.5 awr a'r all-lif (trai) yn para tua 6.5 awr.

Yn y rhan o'r afon sydd wedi'i chamlesu, mae'r mewnlif yn para tua 2 awr a'r all-lif yn para tua 10 awr. Yn ystod y cyfnod hir hwn o lanw trai, mae dyfroedd y llanw yn llifo allan yn llwyr, gan adael lefel naturiol yr afon i lifo i'r aber. Yn ystod gorllanw, yn y man lle mae cryfder mewnlif y llanw yn cwrdd ag all-lif yr afon ceir ‘wal’ isel o ddŵr a elwir yn eger. Gall yr eger gyrraedd uchder o tua 0.5 metr (1.6 troedfedd) a gall ffrydiau llanw cryf sy’n gysylltiedig ag ef fod yn beryglus i gychod bach yn enwedig.

Yn yr afon, gellir dod o hyd i falurion arnofiol a malurion sy’n rhannol o dan y dŵr, yn enwedig yng nghyffiniau'r rhan sydd wedi’i chamlesu lle maent yn cael eu cludo i fyny ac i lawr ar y llanw. Yn nodweddiadol, gall hyn gynnwys coed a darnau eraill o bren sydd wedi ymwahanu oddi wrth un o'r glanfeydd a'r ceiau segur ar lan yr afon, yn ogystal â silindrau nwy gwag a chynwysyddion eraill, dodrefn gardd a sbwriel domestig. Mae'r eitemau hyn yn beryglus, yn enwedig i lestrau bach.

Ar ôl cael ei hysbysu am falurion arnofiol, mae'r awdurdod cadwraeth yn gwneud trefniadau ar gyfer eu tynnu o’r dŵr a chael gwared arnynt. Fodd bynnag, ar afon lanwol gyda ffynhonnell gyson o falurion sydd hefyd yn dod i lawr yr afon dros y gored yng Nghaer, nid yw'n bosibl cadw'r rhan sydd wedi’i chamlesu yn glir bob amser. Anogir defnyddwyr Gwarchodaeth Dyfrdwy felly i fod yn ofalus iawn o ran y perygl hwn.

**Lle bo'n bosibl, dylai llestrau bach osgoi defnyddio'r afon yn y tywyllwch neu mewn amodau pan nad yw’n bosibl gweld mor bell ag arfer oherwydd na fydd yn hawdd gweld eitemau o falurion arnofiol o bosibl, yn enwedig pan fyddant yn rhannol o dan y dŵr.**

O bryd i'w gilydd, gwneir gwaith harbwr yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy. Gall y gwaith hwn gynnwys adeiladu mannau angori newydd neu atgyweirio a chynnal a chadw adeileddau presennol megis pontydd dros yr afon. Gall gwaith yn yr harbwr gynnwys gweithgareddau deifio masnachol neu olygu bod pobl yn gweithio ar uchder ar adeiledd sydd union uwchben yr afon. Mewn amgylchiadau o'r fath, darperir cychod fel arfer ac maent yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr ardal waith yn cael ei chadw'n glir rhag defnyddwyr eraill yr afon. Mae'n ofynnol i bob defnyddiwr fynd yn ei flaen yn ofalus iawn wrth fordwyo o fewn yr ardal waith yn yr harbwr a dilyn y cyngor a roddir gan staff cychod diogelwch.




*Ffigur 3 Ffotograff o gwch diogelwch yn mynychu gwaith yn yr harbwr ger Pont Las Queensferry.*

# Gollyngfeydd

O fewn y darn o afon Dyfrdwy sydd wedi’i gamlesu, rhwng Cei Connah a Wilcox Point, mae tair ar ddeg o ollyngfeydd llifddor llanw mawr yn gollwng dŵr wyneb o gyrsiau dŵr mewndirol yn gyfagos i’r afon. Pan fydd amodau’r llanw yn atal arllwys dŵr i’r afon, mae gorsafoedd pwmpio draenio tir yn pwmpio dŵr wyneb na all ddianc o’r tu ôl i’r llifddorau dros y lan i’r brif afon er mwyn lleihau’r perygl o lifogydd i’r tir ac eiddo o fewn

y gorlifdir. Dylai defnyddwyr y Warchodaeth gadw'n glir o ollyngfeydd o'r fath bob amser.

# Diogelwch mordwyol yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy

Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb dros ddiogelwch mordwyo yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy wedi'i rannu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod cadwraeth, harbwr a goleudy lleol, a Mostyn Docks Ltd. fel awdurdod peilota a'r awdurdod harbwr statudol ar gyfer Porthladd Mostyn, sef yr ardal ddiffiniedig sydd union o amgylch y porthladd, a'r ffyrdd dynesu ar ochr orllewinol yr aber.

## Ystyriaethau cyffredinol

O bryd i'w gilydd, gellir gwneud newidiadau i'r cymhorthion mordwyo y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad hwn ac mae'n bosibl y caiff cymhorthion mordwyo ychwanegol eu sefydlu yn y dyfodol. Cyn mordwyo o fewn neu drwy Warchodfa Dyfrdwy dylai unrhyw un sy'n bwriadu gwneud hynny sicrhau ei fod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl gymhorthion mordwyo oddi wrth Warchodaeth Dyfrdwy a Harbwrfeistri Porthladd Mostyn.

Er bod y cyhoeddiad hwn yn darparu canllawiau mordwyo o fewn Gwarchodaeth Dyfrdwy, ni all ond ategu morwriaeth dda ac nid cymryd ei lle. Rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am fordwyo llestr gofio mai efe sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau diogelwch mordwyol y llestr hwnnw bob amser.

Rhaid i bob llestr sy'n mordwyo o fewn Gwarchodaeth Dyfrdwy gydymffurfio â **Rheoliadau Rhyngwladol ar gyfer Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr 1972,** fel y'u diwygiwyd. Rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am lestr sicrhau ei fod yn gyfarwydd â gofynion y Rheoliadau hyn a'u cymhwyso'n gywir. Mae hyn yn bwysig iawn o ran sicrhau bod llestr yn ymddwyn yn gywir pan fydd yn symud, ei bod yn arddangos goleuadau a siapiau llywio a ddeellir yn rhyngwladol, ac yn defnyddio signalau sain a chamau i osgoi gwrthdrawiadau mewn sefyllfaoedd lle mae'n mynd heibio i bethau yn agos.


Rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am fordwyo llestr hefyd ystyried presenoldeb cychod eraill a phobl eraill sy'n defnyddio Gwarchodaeth Dyfrdwy wrth bennu cyflymder diogel. Mae cychod bach wedi'u hangori mewn sawl rhan o'r aber a'r afon a gall y don a ffurfir wrth i lestr fynd heibio fod yn beryglus i eraill, gan gynnwys unrhyw un ar flaendraeth yr aber neu lannau'r afon. Cyhoeddir gwybodaeth am ddiogelwch mordwyo yn y ddogfen **Hysbysiadau Lleol i Forwyr yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy a gyhoeddir gan Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy.** Cyfoeth Naturiol Cymru / Hysbysiadau i Forwyr

Dosberthir yr hysbysiadau hyn i holl ddefnyddwyr hysbys Gwarchodaeth Dyfrdwy neu eu cyrff cynrychioliadol ac maent hefyd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylai unrhyw un sy'n bwriadu mordwyo yn yr ardal sicrhau ei fod yn ymwybodol o gynnwys yr holl hysbysiadau lleol i forwyr sydd mewn grym ar y pryd.



*Ffigur 4 Rig fferm wynt o borthladd Mostyn ar ei ffordd allan i'r môr drwy Ardal Weithredol Mostyn.*

Mae rhybuddion mordwyo hefyd yn cael eu cyhoeddi gan Mostyn Docks Ltd. i ddarparu gwybodaeth a allai effeithio ar ddiogelwch unrhyw lestr sy'n mordwyo neu'n bwriadu mordwyo o fewn ardal eu hawdurdodaeth neu gyfrifoldeb. Mae'n bosibl i rybuddion mordwyo gael eu darlledu gan Mostyn Docks Ltd. ar sianel VHF 14, neu drwy orsaf leol Gwylwyr y Glannau. Lle bo angen, bydd rhybudd mordwyo'n cael ei ddilyn gan hysbysiad lleol i forwyr gan Borthladd Mostyn. Cyhoeddir yr hysbysiadau hyn gan Harbwrfeistr Porthladd Mostyn ac maent hefyd ar gael ar wefan Porthladd Mostyn.




Ffigur5 Cymhorthion mordwyo yn nodi'r sianel ar y penllanw trwy aber afon Dyfrdwy.

Sylwch na ddylid defnyddio'r diagram o'r sianel ar y penllanw a atgynhyrchir yn y llyfryn hwn ar gyfer mordwyo ac fe'i darperir at ddibenion enghreifftiol yn unig. Mae manylion lleoliadau cyfredol yr holl fwiau golau sy'n nodi'r sianel ar y penllanw a bwiau dros dro heb eu goleuo yn cael eu cynnal gan Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy ac ar gael ar gais ganddo.

## Yr aber allanol

Rhaid i bob llestr sy'n mynd i mewn neu'n gadael aber afon Dyfrdwy, sy'n mordwyo i Borthladd Mostyn ac ohono, fynd trwy ran o Warchodaeth Dyfrdwy a elwir yn **Ardal Weithredol Mostyn.** Mae'r ardal hon yn ymestyn o derfyn allanol Porthladd Mostyn hyd at y terfyn tua'r môr i Warchodaeth Dyfrdwy. O fewn yr ardal hon, mae Mostyn Docks Ltd. yn cynnal eu gweithrediadau yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae nifer o lestrau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu ffermydd gwynt ar y môr yn hwylio i mewn ac allan o Borthladd Mostyn yn ddyddiol. Gall hyn gynnwys llongau fferi mawr sy'n mynd ar y môr a rigiau sy'n cael eu tynnu. Oherwydd bod y traffig sy’n defnyddio Porthladd Mostyn yn symud yn gyson, a natur symudol banciau tywod,

cyfyngiadau llanw a ffrydiau llanw cryf, bernir ei bod yn hanfodol cael gwybodaeth leol ar gyfer mordwyo ar hyd afon Dyfrdwy a'i haber.

O dan **Gyfarwyddiadau Peilota** cyfredol, a gyhoeddir gan Mostyn Docks Ltd., mae'n orfodol peilota pob llestr sy'n 20 metr neu fwy o hyd a phob llong sy'n cario ffrwydron neu swmp-lwyth o sylweddau peryglus. Dylid cyfeirio pob ymholiad am beilota at Mostyn Docks Ltd. **(gweler tudalen 31 – Gwybodaeth gyswllt)**

Mae'r **fynedfa orllewinol** i aber afon Dyfrdwy, sy'n arwain at sianel garthu fewnol Porthladd Mostyn, a ddefnyddir yn bennaf gan lestrau masnachol, wedi'i farcio gan fwiau wedi'u goleuo a chymhorthion mordwyo eraill. Ceir manylion ar rifyn diweddaraf Siart Morlys Prydain 1953 ac yn Rhestr o Signalau Golau Morlys Rhifyn A (NP37). Darperir gwybodaeth yn ymwneud â mordwyo'r ardal hefyd yn y rhifyn diweddaraf o Admiralty Sailing Directions 'West Coasts of England and Wales Pilot (NP37)'.

Ceir **mynediad i ochr ogleddol** yr aber, sydd hefyd wedi'i farcio gan fwiau a golau mordwyo, drwy Hilbre Swash. Fel arfer dim ond cychod bach sy'n defnyddio'r fynedfa hon, fel y rhai sy'n mynd i'r angorfeydd, ac oddi wrthynt, ger blaendraeth Wirral yn West Kirby, Thurstaston neu leoedd ymhellach i fyny'r afon.

Ar adegau priodol o'r llanw, gall llestrau fordwyo'r sianel ar y penllanw uwchlaw Porthladd Mostyn. Mae'r sianel hon yn arwain trwy'r aber i mewn i'r rhan o'r afon sydd wedi'i chamlesu yn Oakenholt uwchlaw'r Fflint, rhwng Waliau Hyfforddi'r Gogledd a'r De **(gweler y diagram – Y sianel ar y penllanw trwy'r aber)**. O'r bwi 'West Bar' (sydd wedi'i oleuo) yn yr aber allanol, mae'r sianel ar y penllanw wedi'i farcio gan fwiau â golau Gwarchodaeth Dyfrdwy ac arnynt rifau 1 i 10. Oherwydd newidiadau yn safle'r sianel, mae'r bwiau hyn yn cael eu symud yn ôl yr angen.

Defnyddir bwiau dros dro heb olau hefyd o bryd i'w gilydd i nodi'r sianel lle mae newidiadau'n digwydd yn aml, yn enwedig rhwng bwi Rhif 8 Dyfrdwy a Golau Wal Hyfforddi'r De. Mae'n bosibl y deuir ar draws bwiau amrywiol eraill heb olau ledled yr aber, yn arbennig ar hyd arfordir Wirral lle gosodir angorfeydd cychod hwylio a rasio a marciau eraill gan glybiau hamdden, a hefyd ger mynedfeydd y cwteri ar ochr Cymru lle gosodir angorfeydd preifat yn ystod y tymor pysgota cocos, sef rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr. Nid yw'n anghyffredin i'r bwiau hyn gael eu boddi neu eu boddi'n rhannol yn ystod gorllanwau uchel. Dylid bod yn ofalus iawn wrth fordwyo yn yr ardaloedd hyn.

Felly, ni ddylid defnyddio'r diagram o'r sianel ar y penllanw a gynhyrchir yma ar gyfer mordwyo ac fe'i darperir at ddibenion enghreifftiol yn unig. Mae manylion lleoliadau cyfredol yr holl fwiau â golau sy'n marcio'r sianel ar y penllanw ar gael ar gais gan Harbwrfeistr Afon Dyfrdwy.

## Yr aber mewnol

Mae afon Dyfrdwy yn llifo i mewn i'r aber rhwng **Muriau Hyfforddi'r De a'r Gogledd.** Mae'r rhain wedi'u hadeiladu o gerrig mawr wedi'u pacio ac mae pob llanw'n eu gorchuddio. **(gweler y diagram – Y rhan o afon Dyfrdwy sydd wedi'i chamlesu)**. Mae Wal Hyfforddi'r Gogledd yn estyn am tua 0.85 cilometr (0.53 milltir) mewn

cyfeiriad gogledd-orllewinol i'r aber ac mae'n barhad o'r arglawdd sy'n ffurfio glan ogleddol y rhan o’r afon fordwyadwy.

Ar y pen o Wal Hyfforddi'r Gogledd sydd tua’r môr, mae saif twr sy’n taflu golau mordwyo coch sy’n fflachio, Ffl.C.2e. Mae'r pen i fyny'r afon lle mae Wal Hyfforddi'r Gogledd yn cwrdd â'r arglawdd uwch sydd wedi'i orchuddio â glaswellt wedi'i farcio gan glwyd sy'n arddangos golau mordwyo coch sy'n fflachio, Ffl.C.5e., a dyddnod coch (yr ochr port). Ar hyd gweddill ei hyd mae wedi’i farcio gan 10 clwyd ar bolion, y mae gan bob un ohonynt farc brig coch ar ei phen. Ar ochr Cymru'r sianel, rhwng pont ffordd Sir y Fflint a Phwynt y Fflint, mae llongddrylliad suddedig wedi'i farcio gan fwi perygl ynysig sydd wedi'i oleuo, Ffl.2e.



Ffigur 6 Y tŵr golau ar Wal Hyfforddi’r Gogledd a seilbyst yn edrych tua'r môr dros wal danddwr.




*Ffigur 6 Adeiledd y golau ar Wal Hyfforddi'r De.*

Yn ei hanfod, mae Wal Hyfforddi'r De yn ffurfio glan ddeheuol yr afon fordwyadwy ac yn estyn o islaw Cei Connah tua'r môr am tua 1.2 cilometr (0.7 milltir). Mae wedi'i farcio ar ei hyd gan 9 clwyd ar bolion, y mae gan bob un ohonynt farc brig gwyrdd (ochr starbord) ar ei phen. Ger y pen o Wal Hyfforddi'r De sydd tua'r môr, sef lleoliad mewnlif / gollyngfa'r orsaf bŵer nwy yn Kelsterton, mae adeiledd sy'n taflu golau mordwyo gwyrdd sy'n fflachio, Ffl.G.5e, y ac yn arddangos dyddnod conigol gwyrdd.

Mae Waliau Hyfforddi'r Gogledd a'r De yn cael eu gorchuddio ar y penllanw, a dim ond y marciau uchaf ar y clwydi sydd i'w gweld. Dylid bod yn ofalus iawn wrth fordwyo yn eu cyffiniau.

Ar ochr Cymru'r sianel, rhwng pont ffordd Sir y Fflint a Phwynt y Fflint, mae llongddrylliad suddedig wedi'i farcio gan fwi perygl ynysig sydd wedi'i oleuo, Ffl.2e.




*Ffigur 7 Y rhan o afon Dyfrdwy sydd wedi'i chamlesu rhwng Wal Hyfforddi'r Gogledd a Wilcox Point.*

Mae **pont lefel uchel** sy'n cynnal ffordd yr A548 yn croesi'r afon islaw Cei Connah, y mae digon o le clir fertigol i lestrau fynd odani – tua 18 metr (59.0 troedfedd) –ar benllanw gorllanw. Mae mesuryddion drafft aer segur wedi'u lleoli i fyny'r afon ac i lawr yr afon o'r bont hon, ac ni ddylid eu defnyddio ar gyfer mordwyo.

Lleolir **glanfa Corus** yn union i fyny'r afon o bont yr A548 ar lan ogleddol yr afon. Mae'r lanfa yn eiddo preifat ac fe'i defnyddiwyd yn flaenorol gan lestrau morwrol a oedd yn llwytho cynhyrchion dur o'r gweithfeydd cyfagos yn Shotton. Mae pennau i fyny'r afon ac i lawr yr afon Glanfa Corus wedi'u marcio gan ddau olau mordwyo coch sefydlog sydd wedi'u gosod yn fertigol. Mae angorfa cilfan wedi'i lleoli ar Lanfa Corus ac wedi'i marcio gan oleuadau coch sy'n fflachio, sef Q. Ffl.C, ar ei heithafoedd.

Yn union i fyny'r afon o Lanfa Corus, mae grwyn yn estyn o'r lan ogleddol i'r afon tua'r de, am tua 130 metr (427 troedfedd). Mae'r adeiledd hwn a elwir y **Grwyn Dwyreiniol** wedi ei adeiladu o gerrig mawr wedi'u pacio ac mae pob llanw'n ei orchuddio. Mae'r grwyn wedi'i farcio ar ei hyd gan ddwy glwyd ar bolion, pob un â marc brig coch ar ei ben ac, ar y pen ohono sydd tua'r môr, gan glwyd sy'n arddangos golau mordwyo coch sy'n fflachio, Ffl.C.4e. a dyddnod coch.



*Ffigur 8 Adeiledd ar ochr ddeheuol yr afon, gyferbyn â Glanfa Tata, gyda mesurydd drafft aer yn union i lawr yr afon a Phont Lefel Uchel yr A548 yn y cefndir.*

Mae banc helaeth a serth o dywod a llaid ar ochr ogleddol yr afon y tu ôl ac yn union i fyny'r afon o'r Grwyn Dwyreiniol. Rhaid i bob llestr ddilyn y tro yn yr afon o amgylch y banc hwn gan gadw tua'r môr o'r glwydo sydd wedi'i goleuo sy'n marcio diwedd y Grwyn Dwyreiniol.

Yn union i fyny'r afon o Lanfa Corus ar ochr ddeheuol yr afon mae adeiledd pren sylweddol, a adeiladwyd yn wreiddiol ar gyfer mewnlif / gollyngfa'r orsaf bŵer glo flaenorol yng Nghei Connah. Mae'n arddangos golau mordwyo gwyrdd sy'n fflachio, Ffl. G.4e. Mae un o'r mesuryddion drafft aer ar gyfer y bont lefel uchel wedi'i leoli'n agos i'r adeiledd hwn sy'n beryglus o ran mordwyo.

## Yr afon yng Nghei Connah

I fyny'r afon o'r Grwyn Dwyreiniol, ar dro yr afon ac ar ei glan ddeheuol yng **Nghei Connah**, mae glanfa seilbyst sy'n eiddo i **Gyngor Sir y Fflint**. Mae'r cyfleuster hwn, sydd â dyfnderoedd amrywiol o ddŵr wrth ei ymyl, yn sychu ar y pen ohono sydd i fyny'r afon yn ystod llanwau isel.

Ceir rhwystrau tanddwr mewn mannau amrywiol ar hyd y lanfa a dylid ceisio gwybodaeth leol cyn angori wrth ei hymyl. Fel arfer, mae pysgotwyr lleol a pherchnogion cychod bach eraill yn defnyddio'r lanfa hon a cheir mynediad cyfyngedig i'r ysgolion fertigol a ddarperir. Dylid gofalu a gwirio'n rheolaidd bob llestr

sydd wedi'i hangori wrth ymyl, yn enwedig pan geir gwyntoedd cryf o'r gogledd orllewin a all greu amodau sy’n beryglus i gychod bach pan fyddant yn chwythu yn erbyn llanw trai.



*Ffigur 9 Cychod bach wrth ymyl Cei Connah ar y penllanw*

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â defnyddio'r lanfa yng Nghei Connah at Gyngor Sir y Fflint **(gweler tudalen 31 – Gwybodaeth gyswllt).**

Yn union i fyny'r afon o Gei Connah ac ar yr un ochr i'r afon, mae llithrfa goncrit / man lansio cychod pwrpasol gyda mynediad cyfyngedig o'r lan sydd fel arfer wedi'i gloi. Defnyddir y cyfleuster hwn gan **Glwb Sgïo Dŵr Dyfrdwy** lleol, a phan fo angen ei defnyddio mewn argyfwng, fe'i defnyddir hefyd ar gyfer lansio ac adfer **cychod achub ar y lan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub.** Mae'r rhain wedi'u lleoli yn yr aber yn y Fflint a West Kirby. Gyferbyn ac i fyny'r afon o Gei Connah ar lan ogleddol yr afon mae pedwar grwyn. Mae'r rhain hefyd wedi'u hadeiladu o gerrig mawr wedi’u pacio ac yn cael ei gorchuddio gan bob llanw.

Mae'r grwyn i lawr yr afon wedi'i farcio ar ei ben tua'r môr gan glwyd sy'n arddangos golau mordwyo coch sy'n fflachio, Ffl.C.2e a dyddnod coch. Mae pob un o'r tri grwyn arall wedi'u marcio gan glwyd ar bolyn gyda marc brig coch ar ei ben.

I fyny'r afon o'r clwydi hyn, hefyd ar lan ogleddol yr afon ac yn union islaw **Pont Reilffordd Penarlâg**, mae dwy lanfa neu lanfeydd segur, y mae’r ddwy ohonynt mewn cyflwr gwael. Mae'r adeileddau hyn yn beryglus i fordwyo, yn enwedig yn y tywyllwch ac mewn unrhyw amodau sy'n cyfyngu ar welededd. Dylai llestrau gadw'n glir ohonynt bob amser a chadw draw o adeileddau tebyg eraill yn y rhan o'r afon sydd wedi'i chamlesu, y gall darnau o bren ymwahanu oddi wrthynt. Ni ddylai llestrau angori wrth ymyl yr adeileddau o dan unrhyw amgylchiadau na'u defnyddio i gael mynediad.

Mae **Pont Reilffordd Penarlâg** yn croesi'r afon tuag 1.85 cilometr (1.15 milltir) uwchlaw Cei Connah, ac mae prif rychwant y bont, a oedd arfer agor er mwyn i lestrau fynd heibio, bellach wedi'i osod yn ei le. Mae digon o le clir fertigol i lestrau fynd odani – tua 4.5 metr (14.7 troedfedd) – ar benllanw gorllanw.



*Ffigur 10 Golygfa o bont ffordd yr A494 yn edrych i lawr yr afon tuag at Bont Las Queensferry.*

Mae'r pier ar ochr ogleddol y bont wedi'i warchod gan adeiledd pren sy'n estyn i lawr yr afon ac i fyny'r afon o'r bont. Mae'r adeiledd hwn wedi'i farcio ar ei ddau ben gan olau mordwyo coch sy'n fflachio, sy’n arddangos Ffl.C.5e. Mae'r byrddau llanw segur gyda segmentau coch, melyn a gwyrdd wedi'u gosod yn fertigol hefyd wedi'u harddangos ar bob pen i'r adeiledd hwn, ar ochr ogleddol y bont. Roedd y marciau ar y byrddau hyn yn benodol i lestrau arbennig ac ni fyddant yn briodol ar gyfer llestrau eraill. Mae'r pier ar ochr ddeheuol y bont hefyd wedi'i warchod gan adeiledd pren llawer llai, wedi'i farcio gan olau mordwyo gwyrdd sy'n fflachio sy'n arddangos Ffl.G.5e.

## Afon sydd wedi’i chamlesu

Mae cebl ffôn tanddwr yn croesi'r afon yn union i fyny'r afon o Bont Reilffordd Penarlâg, ac mae ei leoliad wedi'i farcio gan hysbysfwrdd ar bob glan.

Mae golau mordwyo ar ochr prif rychwant y bont sy’n wynebu i lawr yr afon yn nodi'r ‘Pwynt Tramwy Gorau’ – sef tua chanol yr afon – ac yn arddangos golau gwyn sy’n fflachio, sef llythyren Morse “A”. Mae triongl coch a gwyn adlewyrchol wedi'i osod yn lle golau ar yr ochr o'r bont sy’n wynebu i fyny'r afon. Mae estyll pren isel yn ymestyn ar hyd llinell glan ddeheuol yr afon ac yn agos iddi yng nghyffiniau Pont Reilffordd Penarlâg. Mae'r llanw'n gorchuddio'r caeadau ac wedi’i farcio, ar ei ddau ben, i lawr yr afon ac i fyny'r afon o'r bont, gan glwyd ar bolyn gyda marc brig gwyrdd ar ei ben.



*Ffigur 11 Glanfa segur ar lan ogleddol yr afon ac i fyny’r afon o Bont Reilffordd Penarlâg*

Mae glanfa segur arall sydd mewn cyflwr gwael wedi’i lleoli ar lan ogleddol yr afon, tua 0.48 cilometr (0.29 milltir) i fyny’r afon o Bont Reilffordd Penarlâg. Mae hyn yn berygl i fordwyo, yn enwedig yn y tywyllwch ac mewn unrhyw amodau sy'n cyfyngu ar welededd.

Mae **Pont Las Queensferry**, sy’n cludo’r B5441, yn croesi'r afon tua 1.35 cilometr (0.84 milltir) i fyny'r afon o Bont Reilffordd Penarlâg.

Mae prif rychwant y bont, a oedd arfer agor er mwyn i lestrau fynd heibio, bellach wedi'i osod yn ei le. Mae digon o le clir fertigol i lestrau fynd odani – tua 4.0 metr (13 troedfedd) – ar benllanw gorllanw. Mae goleuadau mordwyo ar ochrau prif rychwant y bont sy’n wynebu i fyny'r afon ac i lawr yr afon yn nodi'r ‘Pwynt Tramwy Gorau’, sef tua chanol yr afon, ac maent yn arddangos golau gwyn yn fflachio, sef llythyren Morse “A”. Mae bwrdd llanw lliw segur i’w weld ar yr ochr o bier deheuol y bont hon sy’n wynebu i lawr yr afon.

Mae cebl ffôn tanddwr yn croesi'r afon yn union i fyny'r afon o Bont Las Queensferry, ac mae ei leoliad wedi'i farcio gan hysbysfwrdd ar bob glan.



*Ffigur 12 Golygfa o bont ffordd yr A494 ar lanw isel o gyfeiriad man i fyny'r afon. Mae bwrdd llanw lliw i'w weld ar bier y gogledd.*

Mae **pont ffordd yr A494** yn croesi'r afon tua 170 metr (558 troedfedd) i fyny'r afon o Bont Las Queensferry. Mae pont yr A494 wedi'i gosod yn ei lle ac odani ceir y lle clir fertigol lleiaf ar gyfer llestrau – tua 3.8 metr (12.5 troedfedd) – ar benllanw gorllanw. Mae dau ben y pier concrit ar ochr ogleddol y bont hon, sy’n wynebu i fyny ac i lawr yr afon, wedi'u marcio gan olau mordwyo coch sy'n fflachio, sy'n arddangos Ffl.C.5e.

Mae pennau’r pier ar yr ochr ddeheuol wedi'u marcio gan olau mordwyo gwyrdd sy'n fflachio, sy'n arddangos Ffl.G.5e. Mae golau mordwyo sy'n marcio’r ‘Pwynt Tramwy Gorau’ o dan y bont hon, sef tua chanol yr afon, yn arddangos golau gwyn yn fflachio, sef y llythyren Morse “A”. Mae bwrdd llanw lliw sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer Dee River Craft hefyd wedi'i arddangos ar y pen o'r pier concrit ar ochr ogleddol y bont hon sy’n wynebu i fyny'r afon.

Mae olion dwy lanfa segur arall wedi eu lleoli tua 750 metr (2460 troedfedd) i fyny'r afon o bont ffordd yr A494 yn agos at lan ddeheuol yr afon. Mae'r adeileddau hyn yn beryglus i fordwyo, yn enwedig yn y tywyllwch ac mewn unrhyw amodau sy'n cyfyngu ar welededd.

Mae pibell gladdedig yn croesi'r afon tua 1.7 cilomedr (1.05 milltir) i fyny'r afon o bont ffordd yr A494, ac mae ei lleoliad wedi'i farcio gan hysbysfwrdd ar y lan ogleddol.



*Ffigur 13 Cyfleuster dadlwytho segur Airbus ym Mrychdyn*

## Cyfleuster llwytho segur Airbus

Mae cyfleuster llwytho segur Airbus wedi'i leoli ar lan ddeheuol yr afon ym Mrychdyn, tua 3.5 cilometr (2.17 milltir) i fyny'r afon o bont ffordd yr A494. Darparwyd y cyfleuster preifat pwrpasol hwn, sy'n eiddo i Airbus UK, i'w ddefnyddio'n unig ar gyfer ysgraffau adain Dee River Craft, nad yw'n gweithredu mwyach. Mae'r angorfa a'r seilwaith cysylltiedig yn parhau yn eu lle, ond nid ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw mwyach.

Mae'r cyfleuster yn cynnwys grid tanddwr, ac mae'r adeiledd cynhaliol (yr oedd yr ysgraff adain yn cael ei thirio arno) yn estyn tua 15 metr (49 troedfedd) i'r afon. Mae'r strwythur hwn wedi'i orchuddio ar bob adeg o'r llanw ac mae'n beryglus i unrhyw lestr sy'n mordwyo'n agos i'r lan ddeheuol, Mae hysbysiadau wedi'u harddangos yn union i fyny'r afon ac i lawr yr afon o'r cyfleuster llwytho i rybuddio defnyddwyr eraill am y rhwystr tanddwr. Mae dau adeiledd seilbyst yn union i fyny'r afon ac i lawr yr afon o'r cyfleuster llwytho, a'r seilbost i lawr yr afon ar gyfer yr angorfa gyfagos, wedi'u marcio gan ddau olau mordwyo gwyrdd sefydlog yr un sydd wedi'u gosod yn fertigol gyda dyddnod gwyrdd conigol ar eu pennau.

Mae pont droed Saltney Ferry Uchaf yn croesi'r afon tuag 1.83 cilometr (1.13 milltir) i fyny'r afon o'r cyfleuster llwytho. Mae'r lle clir fertigol o dan y bont hon yn fwy na Phont Las Queensferry a phont ffordd yr A494.Dim ond cychod hamdden bach a llestrau pysgota sy'n defnyddio'r afon uwchlaw Brychdyn ac nid oes angen gosod goleuadau mordwyo ar y bont hon. Mae banciau tywod yn estyn i'r afon ar droadau'r rhan hon, a gall y rhain leihau'n sylweddol faint o ddŵr sydd ar gael.



Ffigur 14 Golygfa o bont droed Saltney Ferry Uchaf o fan i lawr yr afon.

## Camlas y Shropshire Union

Mae'r llifddorau wrth y fynedfa i fasn Camlas y Shropshire Union wedi'u lleoli yn union i lawr yr afon o Lanfa Crane ar lan ogleddol yr afon. Mae'r llifddorau hyn yn diffinio'r terfyn rhwng yr afon lanwol a dŵr croyw y gamlas. Dylai pobl sy'n gyfrifol am lestrau ac yn bwriadu ymuno neu ymadael â'r gamlas drwy'r llifddorau hyn sicrhau eu bod wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol yn gyntaf, yn enwedig mewn perthynas â chyfyngiadau hyd, lled a drafft, cyfyngiadau llanw a chyngor ar lywio'r afon a'r aber yn ddiogel (gweler tudalen 31 – Gwybodaeth gyswllt).



Ffigur 15 Y llifddorau wrth y fynedfa i Gamlas Shropshire Union.

## Yr afon uwchlaw'r Warchodaeth

Mae pont reilffordd yn croesi'r afon yn Wilcox Point, tua 0.5 cilomedr (0.3 milltir) i fyny'r afon o Lanfa Crane, ac yn nodi terfyn Gwarchodaeth Dyfrdwy i fyny'r afon.

Uwchlaw Wilcox Point, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer yw'r Awdurdod Mordwyo ar gyfer Afon Dyfrdwy. Dylai pobl sy'n gyfrifol am lestrau ac yn bwriadu mordwyo ar hyd afon Dyfrdwy i fyny'r afon o Wilcox Point sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o ofynion yr Is-ddeddfau perthnasol a wnaed gan Gyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (gweler tudalen 31 – Gwybodaeth gyswllt).



Ffigur 17 Y bont reilffordd yn Wilcox Point, sy'n nodi terfyn Gwarchodaeth Dyfrdwy i fyny'r afon.

# Y weithdrefn adrodd mewn argyfwng

## Dull o gysylltu

Gwylwyr y Glannau EF: Sianel VHF 16,
O linell dir neu ffôn symudol ffoniwch 999 a gofynnwch am “Gwylwyr y Glannau”.

## Yr heddlu, gwasanaethau tân neu wasanaethau ambiwlans

O linell dir neu ffôn symudol ffoniwch 999 a gofynnwch am y gwasanaeth(au) priodol.

## Sefyllfaoedd brys yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy

Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried bod **sefyllfa o argyfwng** yn ddigwyddiad sy’n cael, neu a allai gael, effaith andwyol ar fywyd dynol, eiddo neu'r amgylchedd. Gall hyn, er enghraifft, godi o ganlyniad i ddamwain, digwyddiad neu sefyllfa a allai fod yn beryglus sy'n ymwneud ag un neu fwy o lestrau. Diffinnir y digwyddiadau hyn mewn rheoliadau sy'n nodi'r **Gofynion Adrodd Statudol** ar gyfer llongau, llestrau pysgota a chychod hamdden mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae adroddiadau a wneir o dan y Rheoliadau hyn ar wahân i, ac yn ychwanegol at, y gofynion i adrodd am ddamweiniau i Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol (MAIB) yr Adran Drafnidiaeth. Yn hyn o beth, dylai unrhyw un sy’n gyfrifol am lestr sy’n mordwyo yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o’r Gofynion Adrodd Statudol sy’n berthnasol i’w lestr, ac yn cydymffurfio â nhw.

Gellir cael gwybodaeth am y pwnc hwn, sy'n berthnasol i lestrau o bob math a maint, gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, ac o Hysbysiadau Lleol i Forwyr ar Adrodd Statudol, a’r ddogfen Adrodd am Argyfyngau a Digwyddiadau yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy, sydd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru **(gweler tudalen 31 – Gwybodaeth gyswllt).**

Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n gyfrifol am lestr nad yw'n ofynnol iddynt adrodd o dan y Rheoliadau, a defnyddwyr eraill Gwarchodaeth Dyfrdwy, hefyd yn canfod eu hunain mewn sefyllfa argyfwng. Ym mhob achos, mae'n hanfodol bwysig gofyn am gymorth priodol yn ddi-oed **(gweler y Weithdrefn adrodd mewn argyfwng).**

Mae’r canllaw ar ymateb i sefyllfaoedd brys a’r holiadur ar y tudalennau canlynol wedi’u datblygu i roi arweiniad mewn amgylchiadau o’r fath a sicrhau bod y gwasanaethau brys yn cael yr wybodaeth y bydd ei hangen arnynt. Anogir pob defnyddiwr i astudio'r dogfennau hyn a chyfeirio atynt mewn unrhyw sefyllfa argyfwng, lle bo'n ymarferol.

Bydd Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy yn cael gwybod am unrhyw sefyllfa argyfwng sy’n digwydd yng Ngwarchodaeth Dyfrdwy os yw rhywun wedi adrodd amdano i’r gwasanaethau brys, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Mostyn Docks Ltd.

Ar ôl pob argyfwng, mae Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy yn cynnal ymchwiliad i ganfod yr achos uniongyrchol a sylfaenol. Gall yr ymchwiliad hwn gynnwys archwilio

llestr, ei hoffer a chofnodion ar fwrdd y llestr, cynnal cyfweliadau ag unrhyw bartïon a anafwyd, tystion a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau brys.

Anogir holl ddefnyddwyr Gwarchodaeth Dyfrdwy i roi gwybod am unrhyw ‘sefyllfa a allai fod yn beryglus’, lle gallai niwed i bobl neu ddifrod i eiddo neu'r amgylchedd fod wedi digwydd. Dylid cyflwyno’r adroddiadau hyn yn ysgrifenedig i Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy a fydd yn ymchwilio i’r mater i bennu a ddylid cymryd unrhyw gamau er mwyn atal y sefyllfa rhag digwydd eto **(gweler y rhestr gyswllt ar dudalen 31).**

# Ymateb i argyfwng

**Yn achos argyfwng, dylid:**

<u>Cam 1</u> – Llunio crynodeb o'r sefyllfa argyfwng

(Defnyddiwch yr Holiadur Argyfwng ar dudalen 30)

<u>Cam 2</u> – A yw’r argyfwng yn ymwneud â llestr, unigolyn yn y dŵr, neu unigolyn sydd wedi’i ynysu gan y llanw?

**Os YDY: Defnyddiwch Sianel VHF 16** neu ffoniwch 999 i hysbysu Gwylwyr y Glannau, gan roi crynodeb o'r sefyllfa argyfwng.

**Os NAC YDY: Ffoniwch 999** i hysbysu'r heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaethau ambiwlans, gan roi crynodeb o'r sefyllfa argyfwng.

<u>Cam 3</u> – Heb beryglu bywyd ymhellach, ceisiwch liniaru'r sefyllfa argyfwng.

Sicrhewch fod personél wedi'u gwisgo'n iawn. Os yn bosibl, dilynwch gyfarwyddiadau Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy a/neu’r gwasanaethau brys.

<u>Cam 4</u> – Pan nad oes bygythiad uniongyrchol mwyach i fywyd neu eiddo, gellir ystyried bod y sefyllfa argyfwng wedi dod i ben.

# Holiadur Argyfwng

Eich enw…………………………………………………………….…….

Enw eich llestr/yr anafedig……………………………………………

Safle eich llestr/yr anafedig…………………………………..……………

*SYLWER: Yn ddelfrydol, dylid rhoi lleoliad y llestr/yr anafedig ar ffurf lledred a hydred (e.e. o dderbynnydd GPS), neu fel cyfeiriant a phellter o dirnod cydnabyddedig (e.e. “1 milltir i'r de-orllewin o Ynys Hilbre”).*

Crynhowch y math o argyfwng sydd wedi codi…………………….
……………………………………………………………………….………

……………………………………………………………………………...

*Sylwer: Rhowch ddisgrifiad cryno o’r sefyllfa sy’n bodoli, e.e. a oes rhywun ‘wedi syrthio i’r dŵr’, a oes llestr ar dân neu’n suddo, a fu gwrthdrawiad neu a yw llestr wedi tirio, neu a oes pobl wedi’u hynysu ar fanc tywod?*

*Bydd eich disgrifiad o’r sefyllfa yn helpu i bennu’r ymateb mwyaf priodol gan y gwasanaethau brys.*

Nodwch nifer y bobl o dan sylw…………………………….……….

Os oes unrhyw bobl ar goll, nodwch nifer y bobl sydd ar goll a disgrifiad byr ohonyn nhw…………………………………………………….………
……………………………………………………………………….………..

Beth yw eich pryder mwyaf uniongyrchol?……………………….……….

Yn olaf, nodwch rif(au) ffôn symudol, a/neu’r dull mwyaf addas o gyfathrebu â chi/y claf……………………..……
…………………………………………………………………………..……

# Gwybodaeth gyswllt

## Cyfoeth Naturiol Cymru

(Fel awdurdod cadwraeth, harbwr a goleudy lleol ar gyfer aber afon Dyfrdwy)
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk chwiliwch am 'Aber Afon Dyfrdwy'

**Adrodd am ddigwyddiad (24 awr) -** 0300 065 3000
**Cyswllt cwsmer ar gyfer sefyllfa nad yw'n argyfwng –** 0300 065 3000

## Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy

Harbwrfeistr Gwarchodaeth Dyfrdwy
d/o Strategic Marine Services Ltd.
12 Llys y Capel
Ffordd Wervin
Caer
CH2 4BP
**Ffôn:** 01244 371428
**E-bost:** harbourmaster@deeconservancy.org

## Mostyn Docks Ltd.

(yr awdurdod harbwr statudol ar gyfer Porthladd Mostyn a'r awdurdod peilota)

**e-bost:** harbourmaster@portomostyn.com
**Harbwrfeistr Porthladd Mostyn**
**Ffôn:** 01745 560324
**Porthladd Mostyn – Gwybodaeth am y porthladd**
Cysylltwch drwy sianeli VHF 16 a 14

## Cheshire West & Chester Council

(Yr awdurdod mordwyo ar gyfer afon Dyfrdwy uwchlaw Wilcox Point)

www.cheshirewestandchester.gov.uk
**E-bost:** enquiries@cheshirewestandchester.gov.uk
**Ffôn:**0300 123 8 123

## Wirral Borough Council

Wirral Country Park Visitor Centre,
Thurstaston (ar agor 7 niwrnod yr wythnos)
**Ffôn:** 0151 648 4371 neu 0151 606 2000
**E-bost:** wcp@wirral.gov.uk

## Cyngor Sir y Fflint

www.siryfflint.gov.uk
Cysylltwch â'r adran berthnasol
**Ffôn:** 01352 752121

## Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

(Camlas y Shropshire Union)
**Gwefan:** Gogledd Cymru a'r Gororau
**E-bost:** enquiries.northwalesborders@canalrivertrust.org.uk
**Ffôn:** 0303 040 4040

## Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

(Polisi Diogelwch Morwrol y DU a Chwilio ac Achub)

www.mcga.gov.uk/
**Mewn argyfwng**
**Ffôn:** 999 – gofynnwch am 'Gwyliwr y Glannau' neu defnyddiwch Sianel VHF 16

**Llinell wybodaeth Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau am sefyllfa nad yw'n argyfwng** (24 awr y dydd)
**Ffôn:** 0203 817 2000
**E-bost:** infoline@mcga.gov.uk

**Gorsaf leol Gwylwyr y Glannau**
Gweithrediadau Caergybi (24 awr y dydd) yn darparu cyngor lleol, amodau tywydd ac ati
**Ffôn:** 01407 762051
Defnyddiwch Sianel VHF 16

Defnyddiwch y dulliau i gysylltu â

Cyfoeth Naturiol Cymru:

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Ffôn 0300 065 3000***

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Tŷ Cambria**
**29 Heol Casnewydd**
**Caerdydd**
**CF24 0TP**

Tanysgrifiwch i'n sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol a chadwch mewn cysylltiad.

*Nid yw galwadau i rifau 03 yn costio mwy na chyfradd genedlaethol i rif 01 neu 02, a bydd yn cyfrif tuag at unrhyw funudau cynhwysol ar eich contract ffôn yn yr un modd â galwadau 01 a 02. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i alwadau o unrhyw fath o linell, gan gynnwys ffôn symudol, BT, llinell sefydlog arall neu ffôn talu.